

## Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â darparu gwasanaethau i estyn, cynnal, atgyweirio a thynnu ychwanegiadau ewinedd gan ddefnyddio amlapiau. Mae'n cynnwys ymgynghori â'r cleient, cynllunio triniaeth a gosod troshaenau amlap i'r ewin naturiol a blaenau i estyn a gwella'n gosmetig ar yr ewinedd. Hefyd mae angen y gallu i addasu'r gwasanaeth a darparu cyngor ôl-ofal i gyd-fynd ag anghenion cleientiaid unigol.

Er mwyn cyflawni'r safon hon bydd angen i chi gynnal iechyd, diogelwch a hylendid effeithiol trwy gydol eich gwaith. Bydd angen i chi hefyd gynnal eich ymddangosiad personol a dangos sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori effeithiol.

Prif ganlyniadau'r safon hon yw:

1. cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth estyn, cynnal a thynnu ychwanegiadau ewinedd amlap
2. ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau estyn ewinedd amlap
3. gosod troshaenau amlap i ewinedd naturiol
4. gosod troshaenau blaen ac amlap
5. cynnal a thynnu ychwanegiadau ewinedd amlap

Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

## **Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth estyn,\* \* \* \* \* \* \* \* cynnal a thynnu ychwanegiadau ewinedd amlap**

\* \*

1. cynnal eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch trwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi'ch cleient a'ch hun i fodloni gofynion cyfreithiol a sefydliadol
3. gosod eich cleient mewn safle i fodloni anghenion y gwasanaeth
4. sicrhau bod eich ystum eich hun a'ch dulliau gwaith yn isafu ar flinder a risg o anaf i chi'ch hun ac eraill
5. sicrhau bod amodau amgylcheddol yn addas i'r cleient a'r gwasanaeth
6. cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus trwy gydol y gwasanaeth
7. defnyddio dulliau gwaith sy'n isafu ar risg o groes-heintio
8. sicrhau defnydd ar gyfarpar a deunydd glân
9. hyrwyddo arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy
10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a chyflenwyr neu gynhyrchwyr ar gyfer defnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch
11. cael gwared ar ddeunydd gwastraff i fodloni gofynion cyfreithiol
12. cynnal y gwasanaeth o fewn amser sy'n ymarferol yn fasnachol

## **Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau ychwanegiadau ewinedd amlap**

\* \*

13. defnyddio **technegau ymgynghori** i bennu cynllun gwasanaeth y cleient
14. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan riant neu warcheidwad ar gyfer plant cyn unrhyw wasanaeth
15. sicrhau bod rhiant neu warcheidwad yn bresennol trwy gydol y gwasanaeth ar gyfer plant sy'n iau na 16 oed
16. adnabod unrhyw wrtharwyddion a chymryd y **camau angenrheidiol**
17. cytuno ar y gwasanaeth estyn ewinedd a'r canlyniadau sy'n bodloni anghenion y cleient
18. sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan y cleient cyn cynnal y gwasanaeth
19. glanhau'r ardal a fydd yn cael ei thrin a thynnu unrhyw orffeniad sy'n bodoli'n barod
20. adnabod **cyflwr a siâp ewinedd** naturiol y cleient ac unrhyw **broblemau estyn**
21. dewis a chytuno gyda'r cleient yr ychwanegiadau ewinedd i gyd-fynd â'u **siâp a chyflwr yr ewin**
22. cadarnhau hyd a siâp dymunol yr ewinedd gyda'r cleient
23. defnyddio offer a chynnyrch cwtigl i dynnu cwtigl gormodol, heb ddifrodi'r croen o'i amgylch
24. paratoi'r ewin naturiol i sicrhau adlyniad uchaf yr ychwanegiadau ewin
25. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'r cleient ar y gwasanaeth a ddarparwyd
26. sicrhau bod cofnodion y cleient yn cael eu cwblhau a'u llofnodi gennych chi a'r cleient

## Gosod troshaenau amlap i ewinedd naturiol

\* \*

27. addasu ffabrigau a thechnegau amlap i estyn yn gosmetig ar siapiau a chyflyrau ewinedd
28. gosod y droshaen gan adael ymyl rhydd o amgylch ardal y cwtigl a wal ochr yr ewin
29. defnyddio technegau ffeilio i greu'r cydbwysedd, siâp a hyd gofynnol
30. defnyddio technegau gloywi i greu arwyneb gwastad llyfn a sglein

## Gosod blaenau a throshaenau amlap

\* \*

31. dewis a thorri'r blaen a'i addasu i gyd-fynd ag ewin naturiol y cleient
32. adlynu blaen yr ewin i'r ewin naturiol
33. torri, siapio ac asio'r blaenau gan sicrhau nad ydynt i'w gweld ac nad oes unrhyw ddifrod i'r ewin naturiol
34. paratoi'r arwyneb ewin naturiol a gosod y droshaen, gan adael ymyl rhydd o amgylch ardal y cwtigl a wal ochr
35. addasu ffabrigau a thechnegau amlap er mwyn estyn yn gosmetig siâp a chyflwr yr ewin
36. creu'r cydbwysedd, siâp a hyd gofynnol gan ddefnyddio technegau llyfnu
37. creu arwyneb gwastad llyfn a gorffeniad disglair iawn gan ddefnyddio technegau gloywi

## Cynnal a thynnu ychwanegiadau ewinedd amlap

\* \*

38. adnabod unrhyw **broblemau estyn** ewinedd
39. defnyddio **technegau cynnal ewinedd** i adfer yr estyniad ewinedd i'w gyflwr gwreiddiol
40. defnyddio technegau tynnu a sicrhau bod yr haen ewin naturiol a'r

croen sy'n amgylchynu yn rhydd rhag cynnyrch a heb eu difrodi

Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

## Cynnal dulliau gwaith diogel ac effeithiol wrth estyn, cynnal a thynnu ychwanegiadau ewinedd amlap

\* \*

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y diffinnir gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n berthnasol i'ch swydd
2. gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer amddiffyn a pharatoi cleient
3. gofynion cyfreithiol a sefydliadol ar gyfer eich hylendid, amddiffyniad ac ymddangosiad personol
4. technegau gosod eich hun a'ch cleient mewn safle diogel a pham ei bod hi'n bwysig defnyddio'r rhain
5. amodau amgylcheddol angenrheidiol ar gyfer gwasanaethau, megis gwresogi ac awyru a pham bod y rhain yn bwysig
6. pam ei bod hi'n bwysig cadw'ch ardal waith yn lân ac yn daclus
7. dulliau glanhau, diheintio a sterileiddio
8. dulliau gweithio yn ddiogel ac yn lân ac mewn ffordd sy'n isafu ar risg o groes-heintio
9. y peryglon a'r risgiau sy'n bodoli yn eich gweithle a'r arferion gwaith diogel y mae'n rhaid i chi eu dilyn
10. gwahanol fathau o ddulliau gwaith sy'n hyrwyddo **arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy**
11. cyfarwyddiadau cyflenwyr a chynhyrchwyr ar gyfer defnydd diogel ar gyfarpar, deunydd a chynnyrch y mae'n rhaid i chi eu dilyn
12. y gofynion cyfreithiol ar gyfer cael gwared ar wastraff
13. y rhesymau dros gwblhau'r gwasanaeth o fewn amser sy'n

ymarferol yn fasnachol

## Ymgynghori, cynllunio a pharatoi ar gyfer gwasanaethau estyn ewinedd amlap

\* \*

14. pwysigrwydd cyfathrebu gyda chleientiaid mewn modd proffesiynol
15. sut i gynnal ymgynghoriad gan ystyried **anghenion amrywiol** y cleient
16. y gofynion cyfreithiol ar gyfer trin plant sy'n iau na 16 oed
17. yr oed pan fydd unigolyn yn cael ei ystyried yn blentyn a sut mae hynny'n gwahaniaethu yn genedlaethol
18. y rhesymau dros gytuno ar wasanaeth sy'n bodloni anghenion y cleient
19. arwyddocâd cyfreithiol dros sicrhau caniatâd gwybodus, wedi'i lofnodi gan gleient i gynnal y gwasanaeth
20. gofynion deddfwriaethol ar gyfer storio a diogelu data cleient
21. sut i adnabod **gwrtharwyddion** a fyddai'n atal neu'n cyfyngu ar y gwasanaeth
22. y gwrtharwyddion sy'n gofyn am atgyfeiriad meddygol a pham
23. y camau angenrheidiol i'w cymryd mewn perthynas â gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
24. y rhesymau dros beidio ag enwi gwrtharwyddion penodol wrth atgyfeirio cleientiaid
25. y gwahanol fathau o gyflyrau ewinedd a chroen y gellir eu trin
26. sut i gynnal dadansoddiad ewinedd a chroen
27. y gwahanol ddulliau a ddefnyddir i baratoi'r ewin naturiol ar gyfer ychwanegiadau ewinedd
28. y **cyngor a'r argymhellion** ar gynnyrch a gwasanaethau

## Gosod ychwanegiadau amlap

\* \*

29. y gwahanol **siapiau ewinedd naturiol** yr ydych chi'n debygol o ddod ar eu traws yn ystod gwasanaethau estyn ewinedd
30. sut i ddewis a defnyddio amryw fathau o ffeiliau a byffrau ar gyfer gwasanaethau estyn ewinedd
31. technegau dewis blaenau ewinedd, eu gosod a'u hasio
32. manteision ac anfanteision defnyddio blaenau wedi'u hasio neu heb eu hasio
33. y technegau a ddefnyddir i sicrhau cryfder a hirhoedledd uchaf blaenau'r ewinedd
34. sut i addasu technegau taenu i gyd-fynd â gwahanol siapiau a chyflyrau ewinedd
35. y rhesymau dros adael ymyl rhydd o amgylch ardal y cwtigl a'r wal ochr
36. y gwahanol fathau o gyfryngau gludo a'u defnydd
37. nodweddion a buddion ffabrigau amlap
38. cyfansoddiad cemegol amlapiau a'r adwaith cemegol sy'n digwydd yn ystod y broses galedu
39. dulliau a thechnegau i osgoi gormod o gysylltiad â chemegau
40. y gwahaniaethau allweddol wrth osod a'r broses ar gyfer gel UV, amlapiau, hylif a phowdr
41. sut y gall defnyddio offer a chynnyrch yn anghywir ddifrodi'r ewinedd naturiol a'r meinwe meddal amgylchynol
42. y **gwrtharwyddion** a allai ddigwydd, sut i ddelio â hwy a'r cyngor i roi i gleientiaid

## 43. adeiladwaith yr ewin



- 44. proses **twf yr ewin**
- 45. swyddogaeth ac **adeiladwaith y croen**

## Cynnal a thynnu ychwanegiadau ewinedd amlap

\* \*

- 46. y technegau ar gyfer atgyweirio ewinedd naturiol gan gynnwys holltau, craciau, fflawio a thoriadau
- 47. y technegau ar gyfer atgyweirio ychwanegiadau ewinedd gan gynnwys codi, cracio a cholli cyn amser
- 48. y ffactorau sy'n dylanwadu ar ofynion cynnal ar gyfer y system amlap
- 49. dulliau tynnu ychwanegiadau ewinedd amlap

## Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

### Technegau ymgynghori

\* \*

1. holi
2. gwranddo
3. edrych
4. teimlo
5. ysgrifenedig

### Camau angenrheidiol

\* \*

1. annog y cleient i geisio cyngor meddygol
2. esbonio pam na ellid cynnal y gwasanaeth
3. addasu'r gwasanaeth

### Si\*â\*p a chyflwr yr ewin

\* \*

1. wedi'u cnoi
2. bachyn
3. naid sgïo
4. ffan

5. di-siâp

6. wedi'u hollti

## Problemau estyn

\* \*

1. cynnyrch yn codi

2. cynnyrch yn cracio ac yn hollti

3. colli adeiladwaith ewin artiffisial

4. difrod i ewinedd naturiol

## Cyngor ac argymhellion

\* \*

1. cynnyrch gofal yn y cartref addas a'u defnydd

2. osgoi gweithgareddau a allai achosi adweithiau

3. cyfnodau amser a argymhellir rhwng gwasanaethau

4. cynnyrch a gwasanaethau yn awr ac yn y dyfodol

## Technegau cynnal ewinedd

\* \*

1. mewnlenni

2. ail gydbwyso

3. ailosod troshaen

4. atgyweirio troshaen

---

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

## lechyd a diogelwch

\* \*

1. Deddf lechyd a Diogelwch yn y Gwaith
2. Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus (RIDDOR)
3. Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)
4. Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)
5. Rheoliadau Gweithredoedd Codi a Chario
6. Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd (COSHH)
7. Rheoliadau Trydan yn y Gweithle
8. Deddf Diogelu'r Amgylchedd
9. Rheoliadau Rheoli lechyd a Diogelwch yn y Gwaith
10. Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Gyflogeion)

## Arferion gwaith amgylcheddol a chynaliadwy

\* \*

1. gostwng gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, aildddefnyddio, gwaredu diogel)
2. gostwng defnydd ar ynni (cyfarpar sy'n arbed ynni, goleuadau ynni isel, defnyddio paneli solar)
3. gostwng defnydd ar ddŵr ac adnoddau eraill
4. atal llygredd

## Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

---

5. defnyddio eitemau untro (tywelion hawdd eu sychu)
6. defnyddio dodrefn wedi'u hailgylchu, ecogyfeillgar
7. defnyddio paent â chemegau isel
8. defnyddio pecynnau cynnyrch ecogyfeillgar
9. dewis cynnyrch domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)
10. annog siwrneion i'r gwaith sy'n gostwng carbon

## Anghenion amrywiol

1. diwylliannol
2. crefyddol
3. oed
4. anabledd
5. rhyw

### **Gwrtharwyddion sy'n atal**

1. heintiau ffyngaidd
2. heintiau feirws
3. heintiau bacterol
4. heintiau parasitig
5. cyflyrau croen difrifol

### **Gwrtharwyddion sy'n cyfyngu ar**

1. psorïasis

## Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

---

2. dermatitis
3. gwahaniad ewinedd difrifol
4. esgyrn wedi torri
5. cochni neu chwyddo heb wybod pam
6. ewinedd wedi'u difrodi
7. ewinedd wedi teneuo

## Cyngor ac argymhellion

\* \*

1. gwasanaethau ychwanegol
2. cynnyrch ychwanegol
3. gofynion ôl-ofal, cynnal a thynnu ar gyfer ychwanegiadau ewinedd amlap
4. cyfnodau a argymhellir rhwng gwasanaethau estyn ewinedd amlap

## Siapiau ewinedd naturiol

\* \*

1. ffan
2. bachyn
3. llwy
4. hirgrwn
5. sgwâr

## Adweithiau

## Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

---

\* \*

1. adweithiau alergaidd
2. cysylltiad gormodol ac adwaith ecothermig
3. heintiau bacterol
4. gwahaniad ewinedd
5. codi cynnyrch
6. colli ychwanegiadau yn gynnar

## Adeiladwaith yr ewin

\* \*

1. haen ewin
2. gwely'r ewin
3. matrices
4. cwtigl
5. gwyn yr ewinedd
6. hyponychium
7. eponychium
8. perionychium
9. ymyl rhydd
10. plyg ewin ochr

## Twf yr ewin

\* \*

1. ffurfiant yr ewin

Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

---

2. cyfradd dyfu
3. ffactorau sy'n effeithio ar dwf
4. effeithiau difrod ar dwf
5. trwch yr ewin

## Adeiladwaith y croen

\* \*

1. dermis
2. uwchgroen
3. haen tan y croen
4. atodion



## Gwerthoedd

Mae'r gwerthoedd allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. parodrwydd i ddysgu
2. agwedd weithio hyblyg
3. gweithiwr tîm
4. agwedd bositif
5. moeseg bersonol a phroffesiynol

## Ymddygiadau

Mae'r ymddygiad a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba. Mae'r ymddygiad hwn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r sefydliad a'r unigolyn

1. bodloni safonau ymddygiad y sefydliad
2. cyfarch y cleient yn barchus ac mewn modd cyfeillgar
3. cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu
4. trin y cleient yn gwrtais ac yn wasanaethgar bob amser
5. addasu'r ymddygiad i ymateb yn effeithiol i wahanol ymddygiad gan y cleient
6. gwirio gyda'r cleient eich bod chi wedi deall eu disgwyliadau yn llawn
7. ymateb yn brydlon ac yn gadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
8. adnabod gwybodaeth y gallai'r cleient ei chael yn gymhleth a gwirio a ydynt wedi deall yn llawn
9. esbonio'r glir wrth y cleient os na ellir bodloni eu hanghenion neu'u disgwyliadau am unrhyw reswm
10. cynnal dulliau gwaith effeithiol, glân a diogel

## Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

11. cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr a'r cynhyrchwyr wrth ddefnyddio cyfarpar, deunyddiau a chynnyrch yn ddiogel
12. bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant.

## Sgiliau

Mae'r sgiliau allweddol a ganlyn yn sail i gyflwyno gwasanaethau yn y sectorau harddwch, ewinedd a sba

1. y gallu i hunan-reoli
2. cyfathrebu llafar a dieiriau gwyh
3. defnyddio'r ffyrdd mwyaf priodol o gyfathrebu gyda chleient
4. ymateb yn brydlon i gleient sy'n gofyn am gymorth
5. canfod gwybodaeth yn gyflym a fydd o gymorth i'r cleient
6. rhoi gwybodaeth y mae ei hangen ar gleient am wasanaethau a chynnyrch a gynigir gan y sefydliad

## Geirfa

### Mewnlenni

Taenu cynnyrch newydd yn y bwlch bach sy'n digwydd rhwng y cwtigl a phen yr ychwanegiad, wrth i'r ewin naturiol dyfu. Gwneir hyn bob tua 2-3 wythnos.

## Troeshaen

Cot denau sy'n cael ei thaenu ar yr ewin naturiol neu dros yr ewin naturiol a'r blaen.

## Ail gyd-bwyso

Cynnal yr adeiladwaith ewin cyfan gan gynnwys ardal bwysau, ymyl rhydd a chwtigl.

## Ffabrigau amlap

Deunydd wedi'i amgáu mewn resin i gryfhau'r ewin megis gwydr ffibr, sidan, mwslin, neilon a chotwm.

## Estyn a chynnal ewinedd gan ddefnyddio amlapiau

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	01 Ion 2015
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Maw 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAN8
Galwedigaethau perthnasol	Technegydd ewinedd, Therapydd Harddwch
Cyfres/Set	Gwasanaethau Ewinedd, Therapi Harddwch
Geiriau Allweddol	Amlapiau; estyn ewinedd;